| <p>Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell mai'r Pwyllgor hwn – y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol - ddylai fod y pwyllgor sifftio ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylid diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â hynny.</p> | <p>CYTUNO O RAN EGWYDDOR: mater i'r Cynulliad yw hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai'n briodol i CLAC ysgwyddo'r swyddogaeth hon. Er hynny, nid ydym yn credu bod angen diwygio Rheolau Sefydlog i adlewyrchu hyn.</p> |
| <p>Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell y dylai'r dull sifftio fod yn gymwys i reoliadau o dan Gategorïau 1, 2 a 3, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn, sef yr holl reoliadau a wneir o dan y Bil sy'n cynnwys darpariaethau datganoledig a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.</p> | <p>CYTUNO: Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y dylai'r mecanwaith sifftio fod yn gymwys i'r categorïau o reoliadau a nodir gan CLAC, er ei bod yn nodi'r heriau posibl mewn perthynas â chyd-reoliadau a rheoliadau cydamserol, lle y bydd pwyllgorau sifftio'r Cynulliad Cenedlaethol a</p> |

| Argymhelliad | Ymateb Drafft |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Categori 1: rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu'n annibynnol gan ddefnyddio eu pwerau o ran Atodlen 2, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig; • Categori 2: rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU yn gweithredu ar y cyd o dan Atodlen 2, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU; • Categori 3: rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU gan ddefnyddio eu pwerau cydamserol o dan Atodlen 2 a chymalau 7, 8 a 9 yn eu trefn) mewn rheoliadau cyfansawdd, a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU; • Categori 4: rheoliadau a wneir gan wneir gan Weinidogion y DU yn defnyddio eu pwerau o dan gymalau 7, 8, 9 a 17, a osodir gerbron Senedd y DU yn unig. | <p>phwyllgorau sifftio Senedd y DU'n ystyried yr un set o reoliadau.</p> |
| <p>Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai'r weithdrefn gwneud cadarnhaol ar gyfer achosion brys hefyd gael ei chymhwyso mewn perthynas â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (boed a ydynt yn gweithredu ar eu pen eu hunain neu'n gweithredu gyda Gweinidogion y DU mewn perthynas â rheoliadau cyfansawdd, neu'n gweithredu gyda Gweinidogion y DU mewn perthynas â rheoliadau ar y cyd), a hynny er mwyn sicrhau bod gweinidogion o bob llywodraeth yn cael eu trin yn gyson.</p> | <p>CYTUNO : Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gweithdrefnau cadarnhaol ar gyfer achosion brys fod ar gael mewn perthynas â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, i gyd-fynd â'r hyblygrwydd sydd ar gael i Weinidogion y DU ac yn gyson ag egwyddorion cysondeb o ran y ffordd y caiff Gweinidogion pob Llywodraeth eu trin.</p> |



Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Gwydyr House
London
SW1A 2NP

29th March 2018

Dear Alun

I am writing in response to your letter of 16 March 2018 about changes to the European Union (Withdrawal) Bill. I note the summary of the changes you intend to make to the Bill at Lords Report, and the progress in respect of other matters, including the correction of within competence deficiencies in the Government of Wales Act 2006, the correction to the technical standards reservation, and your proposal in respect of enhanced explanatory material.

You raise a specific question in respect of the 'sifting committee' provisions, with reference to the recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee that the provisions should apply to instruments laid before the Assembly, and that the sifting committee's recommendation on the appropriate procedure should be binding. The Welsh Government's view is that it would be appropriate for the sifting committee provisions as set out in the Bill to apply to instruments laid before the Assembly.

However, we are not persuaded that the recommendation made by the sifting committee should be binding. It is right that the exercise of delegated powers should be subject to appropriate and proportionate scrutiny and I expect that in the vast majority of cases Welsh Ministers will accept the recommendation of the sifting committee. However, there may be situations where – for reasons of urgency – Welsh Ministers will need to act more quickly than the affirmative procedure provides for, and it is essential the government retains the flexibility to do so, notwithstanding the recommendations of the sifting committee. We also believe there is a strong case for maintaining consistent arrangements between the National Assembly and the UK Parliament.

I can also confirm that we have no other proposed changes to the scrutiny arrangements for the Welsh Ministers' powers.

I am copying this letter to the Presiding Officer and to the Chair of the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee.

Yours sincerely

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mick

Rwy'n ddiolchgar i'ch Pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud ar eich ymchwiliad i *'Lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd'*. Mae'r adroddiad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r trafodaethau pwysig sydd eu hangen ar oblygiadau Brexit ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac i'r trefniadau rhyng-sefydliadol sy'n ofynnol o ran y strwythurau gwleidyddol ar draws y DU.


Mae Argymhelliad 5, Argymhelliad 6 ac Argymhelliad 8 eich adroddiad yn ymwneud yn uniongyrchol â rôl y Llywydd wrth sefydlu Cynhadledd y Llefaryddion, a'r nod o benderfynu ar y ffordd orau o ddatblygu gwaith rhyng-seneddol ar ôl Brexit. Rwyf fi'n sicr o'r farn ei bod o werth archwilio'r cynigion hyn ac edrych yn fanwl sut y byddent yn gweithio'n ymarferol.

Fel y gwyddoch, cyflwynais i, ochr yn ochr â chi, dystiolaeth i Bwyllgor Gweinyddiaeth Cyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol San Steffan (PACAC) ar 5 Chwefror, fel rhan o'u hymchwiliad ar *'Ddatganoli ac Ymadael â'r UE'*, pan edrychwyd hefyd ar y posibilïadau o ran cynnal Cynhadledd y Llefaryddion. Mewn ymateb, fe wnes i ymrwymo i godi'r materion hyn fel eitem drafod bosibl yng nghyfarfodydd pedair ochrog y Llefaryddion.

Drwy gyfrwng diweddariad i'ch pwyllgor ac mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gennych, gallaf gadarnhau fy mod wedi cyflwyno'r argymhellion fel eitem ar yr agenda, i'w trafod yng nghyfarfod pedair ochrog nesaf y Llefaryddion ym mis Mai.

Byddaf yn diweddarau eich pwyllgor maes o law.

Yn gywir,



Elin Jones AC
Llywydd

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: VG/0157/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

28 Mawrth 2018

Annwyl Mick,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ei waith yn craffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol. Yn Atodiad A i'r llythyr hwn, rwyf wedi nodi fy ymatebion i'r chwe argymhelliad a wnaethpwyd yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil. Mae hwn yn adlewyrchu fy marn ar hyn o bryd.

Byddaf yn ysgrifennu hefyd at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'u hadroddiadau Cyfnod 1 hwythau a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y Tri Phwyllgor.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses y Cynulliad.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 85

Atodiad A: Argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Ar 5 Mawrth, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb yma i bob un o'r argymhellion a gynhwysir yn ei adroddiad.

Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil ar 13 Mawrth.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i adran 16 o'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd gael gwybod enwau'r personau sy'n dod gyda swyddog wrth fynd i fangre.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rwyf wedi ystyried y mater hwn a phryderon y pwyllgor yn ofalus ond rwy'n parhau i gredu nad yw'n angenrheidiol diwygio adran 16 o'r Bil. Rydym yn fodlon bod adran 16 yn briodol. Mae'r adran hon yn gyson â darpariaethau deddfwriaethol eraill megis y darpariaethau gorfodi cyfatebol yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Mae rhanddeiliaid o lywodraeth leol wedi croesawu'r cysondeb â'u pwerau gorfodi presennol.

Yn ystod y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil, codwyd mater pwysigrwydd ystyriaethau hawliau dynol, yng nghyd-destun y pwerau a roddir gan adran 16. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y drefn orfodi a gynigir gan y Bil naill ai'n cydweddu â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu'n gallu cael ei harfer mewn modd sy'n cydweddu ag ef. Rydym yn ystyried y byddai'n sicrhau cydbwysedd teg a chymesur rhwng gwarchod hawliau'r rheini y mae'r pwerau mynediad hyn yn effeithio arnynt, ac effeithiolrwydd y dull o orfodi'r drefn arfaethedig.

Byddai'n rhaid gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch pa gyfarpar neu bersonau, os o gwbl, i ddod â hwy o dan adran 16, mewn modd sy'n gyson ag amcanion adrannau 13 i 17; mae adran 16(1) yn gyfyngedig i'r graddau mai'r bwriad yw nad yw ond yn caniatáu i swyddogion wneud pethau sy'n hwyluso arfer y prif bwerau mynediad.

Yn ychwanegol at y mesurau diogelwch amrywiol sydd o fewn y Bil ei hun, bydd y pwerau gorfodi a roddir i swyddogion awdurdodedig o awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn cyd-destun mesurau diogelwch eraill amrywiol, sy'n bodoli eisoes, megis Deddf Hawliau Dynol 1998.

Yn yr un modd, fel a grybwyllwyd hefyd yn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yn ofynnol i'r rheini y rhoddir dyletswydd arnynt i ymchwilio i droseddau roi sylw

i God B o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Mae'r cod hwn hefyd yn cynnig canllawiau cyffredinol sefydledig sydd, ymhellach, yn rhoi pwyslais clir ar weithredu yn unol â hawliau'r Confensiwn. Mewn perthynas ag argymhelliad y Pwyllgor yn benodol, mae'r Cod hwn eisoes yn cynnwys darpariaeth sy'n ymdrin â rhoi enwau'r rheini sy'n dod gyda swyddogion i chwilio mangre. Yn ein barn ni, mae'r eithriadau sy'n bodoli i'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu cymhlethdod y sefyllfaeod a allai wynebu'r rheini sy'n gyfrifol am chwilio mangre ac rydym ystyried eu bod wedi eu profi'n drylwyr ac yn briodol.

Am yr holl resymau hyn, nid wyf o blaid cyflwyno gwelliant i adran 16.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliannau i'r Bil, gan roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch arfer yr holl bwerau a dyletswyddau o dan y Bil, ac i sicrhau bod y Bil yn cynnwys dyletswyddau priodol i ystyried y canllawiau hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ynghylch y Bil er mwyn hwyluso a hyrwyddo dealltwriaeth o'r drefn newydd arfaethedig, ond ni cheir pŵer ar wyneb y Bil mewn perthynas â hyn am fod gan Lywodraeth Cymru bwerau i'w cyhoeddi eisoes.

Bydd datblygu'r canllawiau yn rhan o'r gwaith a wneir yn y cyfnod a fydd yn arwain at weithredu'r Bil, a bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n offeryn ymarferol a defnyddiol a fydd yn helpu manwerthwyr a'r rheini a fydd yn gorfodi'r ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio â Chonsortium Manwerthu Cymru, Rhwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Phenaethiaid Safonau Masnach Cymru.

Rydym hefyd yn bwriadu ymgysylltu â'r Trydydd Sector ynghylch datblygu canllawiau a dulliau cyfathrebu cysylltiedig. Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio â'r Rhwydwaith Camddefnyddio Sylweddau, sy'n cynnwys aelodau o amrywiaeth o randdeiliaid a darparwyr gwasanaethau gwahanol.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno gwelliant i osod isafbris uned ar gyfer alcohol ar wyneb y Bil.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer i bennu'r isafbris uned at ddibenion y Bil i is-ddeddfwriaeth am resymau sy'n ymwneud â hyblygrwydd, bod yn amserol, a chywirdeb. Bydd gwneud hynny yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu adolygu a phennu'r pris a ystyrir fwyaf priodol ar yr adeg berthnasol - gan ystyried y data mwyaf perthnasol a chyfredol, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, nid wyf yn meddwl ei bod yn briodol pennu'r isafbris uned ar wyneb y Bil.

Rydym yn credu bod hyn yn taro cydbwysedd cywir a chymesur rhwng pwysigrwydd y mater hwn, sy'n cael ei gydnabod, a'r gallu i ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol i unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau economaidd a chymdeithasol.

Ffactor arall a ystyriwyd yw'r dyddiad cynharaf y mae'r polisi'n debygol o gael ei weithredu. Cynigir y bydd cyfnod o amser cyn y daw'r drefn isafbris am alcohol i rym, a fydd yn galluogi'r rheini y bydd y drefn yn effeithio arnynt i baratoi. Nid ydym eisiau pennu lefel isafbris uned ar wyneb y Bil a allai beidio â bod yn gyfredol pan fydd y polisi'n cael ei weithredu. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ni gynnal ymgynghoriad ar yr isafbris uned arfaethedig er mwyn gwahodd sylwadau ar y lefel arfaethedig hon, gan adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd yn yr Alban.

Argymhelliad 4: Ar y cyd ag argymhelliad 3, rydym yn argymhell y dylai unrhyw newid yn y dyfodol i isafbris uned am alcohol yn adran 1 y Bil gael ei gyflawni drwy ddefnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

O ystyried ei effaith ar randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach, rydym yn ystyried ei bod yn briodol na fydd yr isafbris uned yn cael ei bennu neu ei ddiwygio heb ystyriaeth lawn a'r cyfle i gynnal dadl yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y weithdrefn gadarnhaol yn cynnig y cyfle hwnnw a'i bod yn briodol.

Byddwn yn ymgynghori ar lefel gychwynol yr isafbris uned y mae Gweinidogion Cymru o blaid ei bennu. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid allanol ystyried lefel arfaethedig yr isafbris uned.

Hefyd, nid y weithdrefn gadarnhaol yw'r unig fesur diogelwch i'w gynnwys yn y dull arfaethedig o bennu'r isafbris uned at ddibenion y Bil. Mae'r Bil yn ymrwymo Gweinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y drefn isafbris am alcohol ar ôl pum mlynedd. Mae hefyd yn darparu ar gyfer diddymu'r ddeddfwriaeth ar ôl cyfnod o chwe mlynedd oni bai bod Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Cynulliad, yn penderfynu parhau â hi.

Argymhelliad 5: Yn ystod dadl Cyfnod 1, rydym yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau ... cynnwys enghreifftiau penodol o gyfrifiadau o'r isafbris cymwys am alcohol ar wyneb y Bil, ac [yn] egluro sut y bydd yn osgoi'r posibilrwydd o achosi dryswch lle mae'r ffigur a ddefnyddir yn yr enghraifft benodol yn wahanol i'r hyn a geir naill ai ar wyneb y Bil (ein dewis ni) neu mewn rheoliadau

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn ac rwy'n hapus i ailadrodd ac ychwanegu at y pwyntiau a wneuthum yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol ar 13 Mawrth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod deddfwriaeth yn hwylus ac yn hygyrch i'r defnyddiwr. Bydd y camau y bydd angen eu cymryd i hybu hygyrchedd yn amrywio o'r naill Fil i'r llall gan ddibynnu ar y maes pwnc a'r gynulleidfa darged. Yn yr achos hwn, mae darpariaethau'r isafbris yn cynnwys cyfrifiadau mathemategol. Mae hwn yn fater ymarferol sy'n effeithio ar fywydau pob dydd pobl, a bydd gan lawer o bobl ddiddordeb ynddo.

Cynhwyswyd enghreifftiau yn nhestun y Bil er mwyn ymhelaethu ar yr hyn a fyddai, fel arall, yn gamau hollol dechnegol neu fathemategol, ac er mwyn eu mynegi mewn ffyrdd ymarferol y byddai pobl wedi arfer eu gweld ac a fyddai felly o gymorth iddynt eu deall. Mae trafodiadau amleitem, yn enwedig, yn faes cymhleth, a'r teimlad oedd y byddai cynnwys enghreifftiau yn y Bil ei hun o gymorth o ran hygyrchedd. Cafodd y ffigurau a nodir yn yr enghreifftiau eu dewis i'w gwneud yn bosibl gweithio drwy'r enghreifftiau yn rhwydd.

Mae Adroddiad y Pwyllgor yn nodi y byddai modd diwygio'r ffigurau sydd yn yr enghreifftiau, ond nid yr isafbris ei hun, wrth i'r Bil fynd drwy'r Cynulliad. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn yn anghysondeb. Wrth benderfynu pa ffigurau y mae'n briodol eu defnyddio yn yr enghreifftiau, rydym yn teimlo mai'r ystyriaeth bennaf yw pa mor hygyrch yw'r enghreifftiau a pha mor hawdd y bydd hi i aelodau'r cyhoedd eu dilyn. Nid oes angen iddynt adlewyrchu'r isafbris gwirioneddol.

Mae'r Bil, yn ogystal â'r dogfennau ategol, yn ei gwneud yn glir mai'r isafbris uned at ddibenion y Bil fydd pa bris bynnag a gaiff ei nodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (gyda chymeradwyaeth y Cynulliad).

Goblygiadau ariannol

Nid oes goblygiadau ariannol i dderbyn yr argymhelliad hwn.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau "neu'n hwylus" yn adran 22(3).

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn bwysig cadw'r geiriau "neu'n hwylus".

Mae adran 22 o'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu darpariaethau'r isafbris ar ôl i'r cyfnod 6 mlynedd ddod i ben, oni bai y gwneir rheoliadau sy'n darparu fel arall. Os bydd y diddymu'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod hwn, mae'n bosibl y bydd angen gwneud newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall er mwyn i'r diddymu hwnnw weithio, neu er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n effeithiol yn unol â'r bwriad gwreiddiol. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd angen darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed. Mae adran 22(3) yn caniatáu ar gyfer hynny.

Mae'n amlwg y gallai rhyw ddarpariaeth o'r math hwn fod yn "angenrheidiol". Ond byddai dangos bod pob un ddarpariaeth yn "angenrheidiol", yn hytrach nag yn fuddiol, yn hwylus neu'n ddefnyddiol, yn lleihau'r hyblygrwydd ac yn cynyddu'r risg y byddai'r diddymu yn arwain at ganlyniadau niweidiol nas rhagwelwyd, neu lyfr statud sydd wedi dyddio ac nad yw o gymorth. Mae i'r gair "hwylus" ei ystyr ei hun ac mae'n caniatáu ar gyfer gwelliannau a allai fod yn ddymunol, yn ddefnyddiol neu o fudd ymarferol, ond a allai fethu prawf "angenrheidrwydd" llym.

Rhaid cofio hefyd bod cwrpas y pŵer hwn yn gyfyngedig. Ni fyddai ond yn cael ei arfer pe bai darpariaethau'r isafbris yn cael eu diddymu gydag effaith ar ôl i'r cyfnod chwe mlynedd ddod i ben. Mewn achos o'r fath, byddai'n rhaid bod cysylltiad agos rhwng unrhyw ddarpariaeth a wneid o dan y pŵer hwn â diddymu'r Bil.

Rydym o'r farn, felly, ei bod yn bwysig cadw'r geiriad fel y mae, er mwyn caniatáu hyblygrwydd priodol i roi unrhyw ddiddymu ar waith yn y ffordd fwyaf priodol.

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

20 Mawrth 2018

Annwyl Mick

Y BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU)

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ei ystyriaeth a'i adroddiad ar y darpariaethau is-ddeddfwriaeth o fewn y Bil Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Yn eich adroddiad, gwnaethoch un argymhelliad:

“Rydym yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r geiriau “neu'n hwylus” yn adran 78(1).”

Credaf y bydd y pŵer i wneud darpariaeth yn ôl yr angen o dan adran 78 yn ddigonol i sicrhau gweithrediad effeithiol y Bil/Deddf. Felly, derbyniaf y gellid dileu'r pŵer i wneud darpariaeth sy'n "hwylus".

Fodd bynnag, o gofio bod hyn yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru, byddaf yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o drafodaethau cyffredinol ar y Bil.

Os bydd y Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, edrychaf ymlaen at weithio gydag aelodau'r Pwyllgor ar y ddeddfwriaeth yn y dyfodol.



Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English



Eitem 8.5

STATEMENT BY THE WELSH GOVERNMENT

TITLE Consultation on the Draft Legislation (Wales) Bill

DATE 20 March 2018

BY Jeremy Miles AM, Counsel General for Wales

A little over a year ago my predecessor as Counsel General announced that the Government was beginning a ground breaking process to create Codes of Welsh Law. This was the start of a long journey, and it is with great pleasure that I can now announce plans to embark upon an ambitious new leg to that journey.

Today I am launching a public consultation on the Draft Legislation (Wales) Bill. This Bill will impose obligations on the Welsh Ministers and the Counsel General to make Welsh laws more accessible, and also makes bespoke provision about the interpretation of Welsh legislation.

One of our most fundamental roles as a government is to protect the rule of law, and to do so we must ensure that devolved law is accessible and understandable.

We recognise that a clear, certain and accessible statute book is an economic asset. It gives those who wish to do business a more stable and settled legal framework. This in turn should help investment and growth. Public sector bodies and other organisations will more easily understand the legal context within which they need operate. Policy makers within government will have a clearer basis from which to develop new ideas. Legislators will find scrutiny of laws easier. And it would make an enormous difference to those of us who may wish to use the law in Welsh.

But this is first and foremost a question of social justice.

Making the law accessible is vital to enable citizens to understand their rights and responsibilities under the law – something that has become increasingly important since repeated cuts have been made to legal aid and to other services designed to advise those in need of assistance or representation.

We are the custodians of the Welsh “statute book”, made up not only of the laws made by this Assembly and the Welsh Ministers, but also those pre-devolution laws we have inherited. That element of the statute book, in particular, is not in a good state. In recent decades legislation has been allowed to proliferate without pausing to fully rationalise and integrate what is new with what had gone before.

The statute book of thousands of Acts and Statutory Instruments has long been difficult to navigate. But Welsh legislation is even more inaccessible due to our highly complex system of devolution and the absence – because of the single England and Wales legal jurisdiction – of a formal body of distinct Welsh law. It is difficult for the people of Wales to know what the law means and to understand who is responsible for what – which undermines democratic accountability.

This Government is committed to a systemic, ongoing and comprehensive consolidation of legislation within our competence, and the organisation of that law into subject specific Codes. While this will be ground breaking in the UK, at least in modern times, we would be following similar precedents set across the common law world. Jurisdictions in Australia and Canada, for example, have routinely consolidated their legislation since the beginning of the 20th century after inheriting laws of the UK Parliament in not dissimilar circumstances. And the United States went a step further and created a code of law in 1926 that has been maintained ever since.

But we need not only look afar for examples of good practice. The laws of Hywel Dda were organised in codes and the lawyers of the day had access to these laws in one book. So codification is an important part of our legal tradition. Our task now is to make sure it is a part of our legal future. We in Wales have done this before, and I am determined that we will do it again.

Our vision for making the Welsh law more accessible is not confined to rationalising legislation. A well-ordered and clearly drafted statute book must also be effectively published and supplementary material is often needed to set out context and fully explain the practical effect of the law. For this reason further improvements to the legislation.gov.uk website operated by The National Archives and to the “Cyfraith Cymru - Law Wales” website are intended to form part of the programme.

Making bespoke, bilingual provision about how our legislation should be interpreted is also part of our wider ambition to make Welsh law more accessible. An Interpretation Act was first enacted by the UK Parliament in 1850 and this practice has since been replicated in common law jurisdictions across the world, including in Scotland and Northern Ireland.

To date Wales has not had its own Interpretation Act, rather we rely on legislation enacted by the UK Parliament in 1978 and later modified in an attempt to take the existence of Welsh legislation into account. In light of our rapidly developing body of Welsh legislation, I believe it is now time to correct that anomaly and develop our own specific provisions for Wales.

I believe, therefore, as a matter of principle that our legislation should be accompanied by its own provisions on how it should be interpreted. Further, the 1978 Act is now 40 years old and in need of modernisation – which we are taking the opportunity to do in our Bill. Importantly the existing arrangements do not properly take into account the bilingual nature of our legislation, and the equal status of the Welsh and English language texts. The 1978 Act was of course made in English only and defines terms in Welsh legislation in the English language only. This must be

remedied, something I know that was of concern to the Constitutional and Legislative Affairs Committee of the Fourth Assembly and to the Law Commission.

I am sure you will join me in marking this important milestone in the development of devolved government in Wales. The Draft Bill is designed to help make Welsh law fit for the future and will, I'm sure, become a foundation stone for the emerging Welsh legal jurisdiction. It is a Draft Bill both of constitutional significance and practical importance to the people of Wales.

I invite Members to consider not only the Draft Bill that is published today but also the vision for the future that underpins it. And I encourage all interested parties from across Wales and further afield to help shape a Bill that will improve the way Welsh law works and, most fundamentally, will help all those affected by the law to find it and understand it.

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: MA-L/MD/0160/18

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Tŷ Hywel
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

15 Mawrth 2018

Annwyl Mick,

BIL CYFRAITH SY'N DEILLIO O'R UNDEB EWROPEAIDD (CYMRU)

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru).

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor am ei ymdrechion i gynhyrchu'r adroddiad hwn ar rybudd mor fyr, ac fe hoffwn longyfarch Aelodau'r Pwyllgor am eu craffu trylwyr a'r adroddiad ei hun, gan ystyried bod yr amser mor brin. Heb unrhyw amheuaeth, bydd yr adroddiad yn ein helpu i gryfhau'r Bil a sicrhau ei fod yn ddarn mor gadarn â phosib o ddeddfwriaeth.

Rwyf wedi ystyried yr wyth argymhelliad yn yr adroddiad yn ofalus iawn, ac wedi ymateb yn fanwl i bob un isod.

Argymhelliad 1. *Rydym yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet, yn ystod dadl Cyfnod 1, yn cadarnhau bod ein dealltwriaeth o ddefnyddio'r pŵer o dan adran 4 o'r Bil yn gywir.*

Dywedais yn ystod dadl Cyfnod 1 bod y pŵer yn adran 4 i wneud addasiadau neu ddarpariaeth bellach ond yn medru cael ei ddefnyddio i sicrhau bod deddfiadau wedi'u

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hailddatgan yn gweithredu'n effeithiol. Rwy'n barod i gadarnhau hynny eto nawr yn ysgrifenedig.

Argymhelliad 2. *Rydym yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn egluro yn ystod dadl Cyfnod 1 a yw'r ordinhadau hunan-gyfyngu (fel y'u disgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet) a gynhwysir yn y Bil yn fwy cyfyng na'r rhai a geir ym Mil yr UE (Ymadael).*

Yn ystod dadl Cyfnod 1 dywedais fod sylwadau'r Pwyllgor, a'r Cynulliad yn ehangach, wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth i ni baratoi ein Bil, ac roedd hyn yn cynnwys cyfyngu ar gwmpas y pwerau, gan ystyried yn benodol y pryderon a godwyd ynghylch ystod y pwerau yn y Bil i Ymadael â'r UE. Yna dywedais fy mod yn cadarnhau bod y pwerau yn y Bil hwn yn fwy cyfyng yn gyffredinol na phwerau yn y Bil i Ymadael â'r UE.

Argymhelliad 3. *Rydym yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfiawnhau yn ystod dadl Cyfnod 1 pam na ellir defnyddio deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau cydweddiad rheoleiddiol fesul achos yn hytrach na'r is-ddeddfwriaeth a ragwelir ar hyn o bryd o dan adran 11.*

Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor, yn ystod dadl Cyfnod 1 gosodais yn llawn fy nghyfiawnhad dros ddefnyddio, yn y lle cyntaf, is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol i gynnal cydweddiad rheoleiddiol â'r Undeb Ewropeaidd.

Yr ystyriaeth unigol bwysicaf ar hyn o bryd yw swm yr is-ddeddfwriaeth sy'n debygol o fod o'n blaen. Rydym eisoes yn gyfrifol am wneud nifer fawr o offerynnau statudol bob blwyddyn er mwyn gweithredu cyfarwyddebau'r UE. Os ydym i lwyddo yn ein nod o sicrhau bod busnesau Cymru'n parhau i gael mynediad llawn a dirwystr at farchnadoedd yr UE, byddai angen ychwanegu at y ffigur hwnnw holl reoliadau'r UE, penderfyniadau'r UE a deddfwriaeth drydyddol yr UE sy'n cael eu mabwysiadu bob blwyddyn ar lefel yr UE. Gan ystyried y swm sylweddol o waith mae hyn yn ei olygu, nid wyf o'r farn y byddai deddfwriaeth sylfaenol yn gyfrwng deddfwriaethol ymarferol ar gyfer cynnal cydweddiad ar hyn o bryd. Er mwyn bod yn sicr bod modd i ni ddarparu'r parhad hwnnw, a pharhau i gael mynediad at farchnadoedd yr UE i'n busnesau, rwy'n ystyried bod y pwerau yn adran 11 yn hanfodol yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, fel y gwelir yn fy ymateb i argymhelliad 5 isod, mae'n bosib bod ateb arall yn y tymor hir.

Argymhelliad 4. *Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i adran 11 o'r Bil, os caiff ei dargadw, i gyfyngu ei gwmpas i faterion sy'n sicrhau cydweddiad rheoleiddiol â'r Undeb Ewropeaidd yn unig, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol.*

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r argymhelliad hwn, sy'n adlewyrchu elfen ganolog o fwriad polisi adran 11. Rwyf o'r farn, fodd bynnag, nad yw'n briodol ceisio cyfyngu'n ffurfiol ar gwmpas y pŵer yn y modd hwnnw. Y rheswm am hynny yw bod yr iaith ynghylch 'cynnal cydweddiad rheoleiddiol' yn amhendant yn ei hanfod, ac y byddai'n creu ansicrwydd cyfreithiol ynghylch dilysrwydd y mesurau i'w cymryd. Nid wyf yn gweld unrhyw iaith gyfyngol a fyddai'n cynnal y sicrwydd cyfreithiol hwnnw.

I'r graddau y gellir ei ddiffinio'n glir, mae'n ymddangos i mi ei fod hefyd o bosib yn culhau cwmpas y pŵer yn ddiangen, ac y gallai atal gwneud deddfwriaeth, er enghraifft, i gadw i fyny â gwelliannau i hawliau cymdeithasol sy'n cael eu mabwysiadu gan yr UE (mater y cyfeiriwyd ato yn ein dadl Cyfnod 1).

Felly nid wyf yn cynnig derbyn y gwelliant hwn - rwyf o'r farn bod y pŵer eisoes yn cynnwys cafeatau pwysig, y bydd y Cynulliad yn eu gweld fel mesurau i ddiogelu rhag yr hyn y byddai'n ystyried fel defnydd amhriodol o'r pŵer. Yn eu plith mae cyfyngiadau mewn perthynas â threthiant, darpariaeth ôl-weithredol a throseddau (adran 11(4)) a'r rhwymedigaeth i ymgynghori (adran 11(5)). Mae'n bwysig tu hwnt nodi nad oes modd defnyddio'r pŵer hwn heb i'r Cynulliad gymeradwyo ei ddefnydd dan y weithdrefn uwch. Yn hytrach na gosod profion cyfreithiol amhendant, rwy'n meddwl mai dyna'r ffordd gywir i ymdrin â'r mater y mae'r Pwyllgor yn gwbl gywir i'w godi: rhoi pŵer i'r Cynulliad graffu ac, os oes angen, i wrthod deddfwriaeth ddrafft os yw'n ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd cam yn rhy bell.

Argymhelliad 5. *Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddarparu:*

(i) bod adran 11 yn cael ei diddymu ar ôl 5 mlynedd o'r diwrnod ymadael oni bai bod rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn darparu fel arall;

(ii) bod rhaid i reoliadau a wneir mewn perthynas ag (i) gael eu llywio gan adolygiad ynghylch yr angen parhaus am y pwerau a ddarperir gan adran 11 o'r Bil.

(iii) y dylai'r adolygiad yn (ii) gael ei gynnal gan bwyllgor o'r Cynulliad Cenedlaethol a chynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Rwyf wedi bod yn meddwl am yr ystyriaeth ofalus a roddodd y Pwyllgor i'r mater hwn a'r ddadl resymegol a gafwyd yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth. Rwy'n cytuno bod modd cryfhau'r Bil ar y mater hwn, felly rwy'n ymrwmo i weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ar welliant a fydd yn bodloni argymhelliad y Pwyllgor.

Rwy'n nodi bod y Pwyllgor yn argymell y dylai pwyllgor o'r Cynulliad gynnal adolygiad o'r angen parhaus am y pŵer. Rwyf o'r farn y byddai'n fwy priodol gosod y cyfrifoldeb o gynnal adolygiad ar ysgwyddau Gweinidogion Cymru. Gallai gofyn i bwyllgor o'r Cynulliad gynnal adolygiad godi cwestiynau anfwriadol am bwerau pwyllgorau'r Cynulliad i gynnal adolygiadau o'r fath. Swyddogaeth y Cynulliad, gan gynnwys ei bwyllgorau, yw craffu ar y Llywodraeth a'i dal i gyfrif. Nid wyf yn disgwyl i hyn fod yn wahanol yn achos adran 11 o'r Bil.

Felly rwy'n cynnig y byddai'r gwelliant yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod adroddiad gerbron y Cynulliad yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru am weithrediad ac effaith y pŵer ac a oes ei angen o hyd. Bydd hynny'n galluogi pwyllgor i graffu ar yr adroddiad hwnnw a chynnal unrhyw adolygiadau pellach y mae'n eu hystyried yn briodol yn unol â'r systemau sydd ar gael. Rwyf hefyd yn cynnig y dylai'r rheoliadau i barhau ag effaith y pŵer fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwch sy'n rhoi digon o amser i'r Cynulliad graffu ar y rheoliadau a'r adroddiad cyn penderfynu a yw'r pŵer i barhau i fod mewn grym.

Argymhelliad 6. *Rydym yn argymell bod Ysgrifennydd y Cabinet:*

- yn cyfiawnhau pam nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol rôl gydsynio o dan adrannau 13 ac 14, yn arbennig lle mae Gweinidogion y DU yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddfau a Mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol;*
- yn egluro sut y mae rôl gydsynio Gweinidogion Cymru o dan adrannau 13 ac 14 yn cyd-fynd â'r broses gydsynio mewn perthynas ag offerynnau statudol a nodir yn Rheol Sefydlog 30A.*

Rydym wedi nodi'r pwyntiau a wnaed yn yr argymhellion hwn a'u hystyried yn ofalus.

Yn y bôn, mae'r pwynt hwn yn ymwneud â swyddogaeth y Cynulliad - yn wahanol i Weinidogion Cymru - wrth gydsynio i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.

Mae angen edrych ar yr holl fater hwn yng nghyd-destun cyfraith sy'n deillio o'r UE, ac yng nghyd-destun yr hyn sy'n angenrheidiol ac yn briodol i ddiogelu deddfwriaeth a'r cynlluniau rheoleiddiol sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig dan gyfraith yr UE ar hyn o bryd (fel yr amgylchedd, bwyd, ffermio) pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Pan fo Llywodraeth y DU yn cynnig is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd datganoledig (sef Deddfau'r DU neu Ddeddfau'r Cynulliad), mae gan y Cynulliad rôl gydsynio drwy rinwedd Rheol Sefydlog 30A (y broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol). Mae'n fesur diogelu pwysig, ond nid yn un sy'n cael effaith fel cyfyngiad cyfreithiol. Ac nid oes proses gyfatebol pan fo is-ddeddfwriaeth y DU *ddim ond* yn diwygio is-ddeddfwriaeth o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae hynny'n broblem ynddo'i hun, i ddechrau gan fod y gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn aml iawn yn wahaniaeth cwbl dechnegol. Yng nghyd-destun ymadael â'r UE, gyda llawer o'r deddfwriaeth yn is-ddeddfwriaeth, mae'n bwysig iawn diogelu deddfwriaeth ddatganoledig a chynlluniau rheoleiddiol sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig sydd ar hyn o bryd yn dod o dan gyfraith yr UE.

Pwrpas adrannau 13 ac 14, fel y gwelir yn glir, yw y dylai Llywodraeth y DU, fel mater o gyfraith, orfod cael cydsyniad mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth o fewn cwmpas cyfraith yr UE a wneir dan bwerau newydd. Mae hynny'n fesur diogelu sylfaenol bwysig ar gyfer y cynlluniau rheoleiddiol datganoledig hynny ac ati.

Dan ein darpariaeth, Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad ddylai roi cydsyniad. Nid yw hynny'n amharu ar y broses Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, felly pan fo deddfwriaeth y DU yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae rôl bresennol y Cynulliad yn parhau. Yn fwy cyffredinol, mae'n briodol i'r broses gydsynio ar gyfer is-ddeddfwriaeth y DU gael ei chynnal rhwng Llywodraethau, yn hytrach na deddfwrfeydd.

Argymhelliad 7. *Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â rheoliadau a wneir o dan y Bil, fod yn glir ac yn dryloyw o ran:*

- *pam y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys;*
- *pa newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei newid, pam ei fod yn cael ei newid a'r effaith y bydd y newid yn ei chael;*
- *a fu ymgynghori digonol a beth oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad;*
- *yr effaith y gall y rheoliadau ei chael ar gydraddoldeb a hawliau dynol;*
- *p'un a yw'r rheoliadau'n codi materion o bwys cyhoeddus, gwleidyddol neu gyfreithiol.*

Rwy'n cytuno y gellid gwneud darpariaeth bellach ar y mater hwn er mwyn galluogi'r Cynulliad i wneud penderfyniadau fel rhan o'r weithdrefn uwch. Dan y Bil, y Cynulliad sy'n penderfynu a ddylai'r weithdrefn uwch fod yn gymwys ai peidio, nid Gweinidogion Cymru. Felly yn hytrach nag egluro pam y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn gymwys, rwy'n cynnig y dylid gosod cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i egluro a ydynt o'r farn y dylai'r weithdrefn uwch fod yn gymwys. Gallai hyn helpu'r Cynulliad i benderfynu a yw'r weithdrefn

uwch i fod yn gymwys. Rwy'n cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth yn unol â hyn yn ystod Cyfnod 2.

Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod dyletswydd i ddarparu'r wybodaeth arall sy'n cael ei nodi yn angenrheidiol. Mae'r wybodaeth hon, a mwy, yn cael ei darparu ar hyn o bryd mewn perthynas â phob offeryn statudol sy'n cael ei osod gerbron y Cynulliad. Nid wyf yn dymuno dechrau cyfyngu ar yr hyn y dylid neu na ddylid ei osod mewn memoranda esboniadol. Dylai'r Pwyllgor fedru craffu ar bob offeryn statudol a'r memorandwm perthnasol ar ei rinweddau ei hun.


Argymhelliad 8. *Rydym yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd â rheoliadau a wneir o dan y Bil, fod yn glir ac yn dryloyw o ran:*

- *pam y dylai'r weithdrefn frys fod yn gymwys;*
- *pa newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei newid, pam ei fod yn cael ei newid a'r effaith y bydd y newid yn ei chael;*
